# Uned 19: Ymgymryd â Chynhyrchu Gwraidd-gnydau a Llysiau Cae

**Côd yr Uned:** T/600/9128

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno sgiliau a gwybodaeth i ddysgwyr y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu gwraidd-gnydau a llysiau cae,  a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae cynhyrchu gwraidd-gnydau a llysiau cae yn sector pwysig ac arbenigol yn y diwydiant amaethyddol mewn rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig, ac yn cynnig mentrau sy'n gallu creu incwm uchel fesul hectar ar gyfer busnesau tir.

Mae mwyafrif y peiriannau, y cyfleusterau storio a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer y cnydau a gaiff eu hastudio yn yr uned hon yn arbenigol eu natur, gan olygu bod gwybodaeth fanwl yn hanfodol. Mae'r cyfleoedd gyrfa yn y sector gwraidd-gnydau a llysiau cae yn amrywiol ac yn cael eu cryfhau wrth i brynwyr symud at gael eu ffrwythau a'u llysiau'n lleol.

Nod yr uned hon yw rhoi'r sgiliau ymarferol angenrheidiol i ddysgwyr, a hefyd y sgiliau mae eu hangen fel rhan o weithlu cystadleuol, sydd â meddwl busnes ac sy'n ymwybodol o'r amgylchedd.

## Deilliannau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:

1 Wybod am ofynion hwsmona gwraidd-gnydau a llysiau cae

2 Deall cynaeafu, storio a marchnata gwraidd-gnydau

3 Deall cynaeafu, storio a marchnata llysiau cae

4 Gallu cynhyrchu gwraidd-gnydau a llysiau cae.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gwybod am ofynion hwsmona gwraidd-gnydau a llysiau cae

*Gofynion hwsmona ar gyfer pridd a hinsawdd:* mathau o bridd; pH pridd a thwf cnydau; strwythur pridd a'r amgylchedd; gofynion draenio caeau; yr hinsawdd (ee rhew, topograffi, gwedd, heulwen, glaw); cymhorthion artiffisial (ee dyfrhau, argaeledd dŵr a gofynion cnydau, ffilmiau plastig, poly-dwneli, tai gwydr)

*Gofynion hwsmona ar gyfer cnydau dethol:* lleoliad wrth gylchdroi; dethol hadau a phlanhigion; triniaeth cyn-plannu berthnasol; dulliau paratoi gwelyau hadau (ee gwelyau, cribiau); peiriannau plannu a drilio; amseru; bylchiad rhesi a phlannu; dehongli mynegai pridd, gofynion tail a gwrtaith; gofynion Parthau Perygl Nitradau (NVZ); rheoli clefydau; gofynion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol (ee Gweithdrefnau Asesu Risgiau Amgylcheddol Lleol (LERAP), codau ymarfer, Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

## 2 Deall cynaeafu, storio a marchnata gwraidd-gnydau

*Cynaeafu:* amseriad ac aeddfedrwydd cnydau; gofynion peiriannau a llafur; cnydiad targed;  lleihau difrod i gnydau; iechyd a diogelwch

*Storio:* mathau o storfeydd (ee dros dro, parhaol, claddau); rheoli hinsawdd storfeydd (ee rhew, inswleiddiad, awyriad, lleithder); rheoli clefydau a blaguro; rheoli plâu

*Marchnata:* gofynion y farchnad; contractau; graddio a threfnu; cludiant

## 3 Deall cynaeafu, storio a marchnata llysiau cae

*Cynaeafu:* amseriad ac aeddfedrwydd cnydau; gofynion peiriannau a llafur; cnydiad targed; lleihau difrod i gnydau; iechyd a diogelwch

*Storio:* mathau o storfeydd (ee dros dro, parhaol, claddau); rheoli hinsawdd storfeydd (ee rhew, inswleiddiad, awyriad, lleithder); rheoli clefydau a blaguro; rheoli plâu

*Marchnata:* gofynion y farchnad; contractau; graddio a threfnu; cludiant

## 4 Gallu cynhyrchu gwraidd-gnydau a llysiau cae

*Tasgau hwsmona:* paratoi gwelyau hadau; drilio/plannu; defnyddio tail a gwrtaith; dyfrhau; rheoli clefydau; gweithrediadau cynaeafu

*Perfformiad corfforol ac ariannol:* targedau cynhyrchu; mewnbynnau ac allbynnau; maint gros; Costau uned cynhyrchu; cyllidebau rhannol

 © Pearson Education Limited 2019

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 nodi'r gofynion pridd ac ansawdd ar gyfer gwraidd-gnydau a llysiau cae dethol | T1 monitro paratoi gwelyau hadau ar gyfer gwraidd-gnydau a llysiau cae penodol gan asesu'r effaith amgylcheddol | Rh1 nodi cryfderau a gwendidau rhaglen gynhyrchu gwraidd-gnydau neu gnydau llysiau cae benodol |
| Ll2 disgrifio gofynion hwsmona gwraidd-gnydau a llysiau cae penodol | | |
| Ll3 egluro trefniadaeth cynaeafu a storio gwraidd-gnydau penodol i fodloni gofynion y farchnad | | |
| Ll4 cymharu maint gros dau wraidd-gnwd penodol | | |
| Ll5 egluro trefniadaeth cynaeafu a storio llysiau cae penodol i fodloni gofynion y farchnad | T2 monitro cynaeafu a storio gwraidd-gnwd neu gnwd llysiau cae | Rh2 cyfrifo costau uned cynhyrchu gwraidd-gnwd neu gnwd llysiau cae. |
| Ll6 cymharu maint gros dau lysieuyn cae penodol | | |
| Ll7 cyflawni tasgau hwsmona ar gyfer gwraidd-gnydau a llysiau cae penodol [YA, MC, DM, GT, CE] | | |
| Ll8 cyfrifo perfformiad corfforol ac ariannol gwraidd-gnydau a llysiau cae penodol. [HR] | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |

 © Pearson Education Limited 2019

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig ac ymweliadau â chasgliadau addas. Gallai gysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar fod yn rhan o holl weithrediadau cynhyrchu gwraidd-gnydau a llysiau cae, ac mae angen i'r tiwtor gynnig amrywiaeth mor eang â phosib o gyfleoedd dysgu i'r dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys darlithoedd, teithiau cerdded o amgylch cnydau yn rheolaidd, (yn ystod amser dosbarth ac amser y dysgwr ei hun), gwaith ymarferol fferm, profiad gwaith, siaradwyr gwadd, ymweliadau ac arbenigwyr allanol megis pobl sy'n ymwneud ag agronomeg, marchnata neu storio cnydau. Dylid cyflawni'r asesiadau mewn sesiynau dysgu ymarferol, a thrwy gyfleoedd megis dyletswyddau fferm, profiad gwaith neu debyg.

Er mwyn i'r uned fod yn effeithiol, bydd angen i'r tiwtoriaid ddewis amseriad rhai o'r asesiadau'n ofalus oherwydd pwysigrwydd tymoroldeb. Wrth gwrs bydd ardaloedd lle na ellir tyfu rhai cnydau yn lleol, er eu bod yn bwysig mewn ardaloedd eraill o'r wlad. Enghraifft dda o hyn fyddai betys siwgr, a dyfir mewn rhannau o'r wlad lle ceir ffatri brosesu gerllaw. Ni cheir, er enghraifft, ddim o’r rhain yn y de-orllewin, ond mae cnydau megis betys porthi neu swêds o bwysigrwydd tebyg a gellir eu hastudio.

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i ddata cofnodi fferm a hanes cnydio blaenorol.

Bydd angen i ddeilliant dysgu 1 gael ei gyflwyno ar ddechrau rhaglen y cwrs, er enghraifft yn yr hydref. Gall y dysgwyr fod wedi gweithio gydag amaethu'r hydref a pharatoi gwelyau hadau ac yn rhan o’r gwaith hwnnw. Mae'n bosib bydd cyfle i diwtoriaid drefnu ymweliadau fferm â mentrau sy'n cynaeafu cnydau yn yr hydref, megis moron, bresych neu ysgewyll.

Bydd angen i ddeilliant dysgu 2 gael ei gyflwyno i gyd-fynd â chynaeafu gwraidd-gnydau, sydd, yn gyffredinol, yn digwydd yn yr hydref, er enghraifft betys siwgr neu datws. Dylai'r tiwtoriaid hefyd sicrhau bod dysgwyr yn deall agweddau ar gynaeafu gwraidd-gnydau, a gall fod angen iddynt egluro bod y cynaeafu yn defnyddio peiriannau.

Bydd deilliant dysgu 3 yn debyg i ddeilliant dysgu 2 a bydd angen i'r tiwtoriaid gynllunio sut orau i gyflwyno'r ddau ddeilliant dysgu hwn, gan ystyried amodau lleol ac yn benodol lle mae llysiau cae yn brin.

Mae deilliant dysgu 4 yn cynnwys tasgau hwsmona ymarferol ynghyd â rheoli perfformiad ariannol. Dylai'r tiwtor gynllunio asesu'r tasgau hwsmona amrywiol yn ofalus am y gallant ddigwydd yn nhymhorau'r hydref, y gaeaf a'r gwanwyn. Gellir hefyd ystyried profiad gwaith dysgwyr lle y bo'n briodol.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad i'r uned a throsolwg o'r uned. |
| **Aseiniad 1: Amaethu a Drilio/Plannu** (Ll1, Ll2, T1, Rh1)<br><br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad. |
| Sesiynau ymarferol: teithiau cerdded o amgylch cnydau i arsylwi cyflwr caeau wedi'r cynaeafu cyn drilio / plannu, asesu proffiliau pridd, profi pH pridd, dewis o beiriannau. |
| Sesiwn theori: y mathau o bridd a'u strwythur, canllawiau cynaliadwy, draeniad cae, dulliau hwsmona artiffisial. |
| Sesiwn theori: cylchdroi cnydau, gwelyau hadau a'u paratoi, peiriannau ar gyfer plannu, gofynion gwrtaith ar gyfer cnydau, rheoli clefydau |
| **Aseiniad 2: Cynaeafu, Storio a Marchnata Gwraidd-gnydau** (Ll3, Ll7, T2)<br><br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori: peiriannau cynaeafu, gofynion marchnata, sefydliad llafur |
| Sesiwn ymarferol: adnabod aeddfedrwydd cnydau, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw peiriannau cynaeafu, paratoi storfa gnydau, ymweld â systemau storio cnydau perthnasol. |
| **Aseiniad 3: Cynaeafu, Storio a Marchnata Cnydau Llysiau Cae** (Ll5, Ll7, T2)<br><br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad. |
| Sesiwn theori: peiriannau cynaeafu, adnabod aeddfedrwydd cnydau, gofynion marchnata, sefydliad llafur. |
| Sesiwn ymarferol: adnabod aeddfedrwydd cnydau, paratoi, defnyddio a chynnal a chadw peiriannau cynaeafu, paratoi storfa gnydau, ymweld â systemau storio cnydau perthnasol. |
| **Aseiniad 4: Perfformiad Corfforol ac Ariannol Cnydau Gwraidd-lysiau a Llysiau Cae** (Ll4, Ll6, Ll8, Rh2)<br><br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori: targedau perfformiad corfforol, targedau perfformiad ariannol, maint gros, cyllidebau rhannol, costau cynhyrchu. |
| Sesiwn ymarferol: ymweld â mentrau perthnasol. |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Ar gyfer Ll1, rhaid i'r dysgwyr ddysgu adnabod y gofynion pridd a hinsawdd ar gyfer cnydau penodol. Rhaid iddynt allu gwahaniaethu rhwng priddglai, tywod a chlai. Dylent hefyd nodi'r pH ar gyfer y cnydau dan sylw a deall sut gall yr hinsawdd ddylanwadu ar gnydau a'u camau tyfu amrywiol.

Ar gyfer Ll2, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r gofynion hwsmona ar gyfer gwraidd-gnydau a chnydau llysiau cae penodol. Dylai'r tiwtoriaid, lle y bo'n bosibl, roi sylw i amrywiadau lleol. Dylai'r gofynion hwsmona gynnwys y pridd, yr amaethu a'r gwelyau hadau angenrheidiol, y dewis o amrywiad ar gnwd i gyd-fynd â'r farchnad berthnasol, math, swm ac amseriad y gwrteithio perthnasol i unrhyw ddadansoddiad mynegai pridd, a mesurau rheoli clefydau penodol.

Ar gyfer Ll3, rhaid i'r dysgwyr egluro sut caiff gwraidd-gnydau penodol eu cynaeafu a'u storio. Rhaid eu bod yn gallu cyfiawnhau eu dewis o beiriannau, amseriad y cynaeafu yn unol ag aeddfedrwydd cnydau a gofynion y farchnad, y gwaith o baratoi cyfleusterau storio ar gyfer eu cnwd a pha reoliadau hinsawdd fyddai'n angenrheidiol.

Ar gyfer Ll4, dylai'r dysgwyr osod maint gros nodweddiadol ar gyfer dau wraidd-gnwd a rhaid cynnwys yr holl feini prawf perthnasol ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau. Rhaid i'r dysgwyr hefyd allu rhoi tystiolaeth am sut cawsant eu ffigurau.

Ar gyfer Ll5, rhaid i'r dysgwyr egluro sut caiff cnydau llysiau cae penodol eu cynaeafu a'u storio. Rhaid eu bod yn gallu cyfiawnhau eu dewis o beiriannau, amseriad y cynaeafu yn unol ag aeddfedrwydd cnydau a gofynion y farchnad, y gwaith o baratoi cyfleusterau storio ar gyfer eu cnwd a pha reoliadau hinsawdd fyddai'n angenrheidiol.

Ar gyfer Ll6, dylai'r dysgwyr osod maint gros nodweddiadol ar gyfer dau gnwd llysiau cae a rhaid cynnwys yr holl feini prawf perthnasol ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau. Rhaid i'r dysgwyr hefyd allu rhoi tystiolaeth am sut cawsant eu ffigurau.

Ar gyfer Ll7, rhaid i'r dysgwyr gyflawni tasgau ymarferol penodol ar gyfer gwraidd-gnydau a llysiau cae. Dylai'r tasgau gynnwys amrediad o weithgareddau perthnasol i'r cnydau penodol a gellir eu hasesu fel rhan o weithgareddau a amserlennwyd a phrofiad gwaith.

Ar gyfer Ll8, dylai'r dysgwyr gynhyrchu data perfformiad ariannol a ffisegol perthnasol ar gyfer cnydau penodol. Rhaid i hyn gynnwys cnydiad cnwd, cyfeirio at ofynion cnydau penodol megis canran siwgr a phwysau corbys ar gyfer betys siwgr, gwrtaith hadau a chwistrelliadau, costau cludiant, ac ardollau a delir i fyrddau marchnata.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr ddewis un gwraidd-gnwd ac un cnwd llysiau cae a monitro sut cynhyrchwyd y gwely hadau. Rhaid i hyn gychwyn o'r foment y cafodd y cnwd blaenorol ei gynaeafu, a dylai gynnwys yr holl beiriannau perthnasol a ddefnyddir yn y gweithrediadau. Hefyd rhaid i'r dysgwyr gysylltu'r peiriannau a ddefnyddir ar gyfer gwelyau hadau ynghyd â'u heffaith amgylcheddol a gofynion trawsgydymffurfio.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr fonitro cynaeafu a storio naill ai gwraidd-gnwd neu gnwd llysiau cae. Bydd cynaeafu yn cynnwys yr holl beirianwaith a chyfarpar, yr amseriad perthnasol i aeddfedrwydd cnydau, a sut cafodd y gweithlu ei drefnu, storfa'r cnwd a'r cnwd yn y storfa.

Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr nodi cryfderau a gwendidau rhaglen gynhyrchu gwraidd-gnydau neu gnydau llysiau cae benodol. Rhaid i hyn gynnwys y prif ffactorau hwsmona sy'n ymwneud â thyfu'r cnwd, ac agweddau megis lleoliad y cnwd yng nghylchdroad y fferm, effeithlonrwydd y defnydd o beiriannau ac argaeledd llafur, y math o gnydau a'r farchnad, y defnydd o dechnoleg a'i rôl berthnasol, a gofal am yr amgylchedd.

Ar gyfer Rh2, dylai'r dysgwyr archwilio'r holl gostau cynhyrchu wedi'u rhannu'n unedau perthnasol megis costau fesul kg ar gyfer cnwd penodol.

## Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, T1, Rh2 | Gofynion Hwsmona Gwraidd-gnydau a Chnydau Llysiau Cae | Ar gyfer gwraidd-gnydau a chnydau llysiau cae penodol dylid adnabod a monitro tyfu'r cnwd o wely hadau hyd at ei gynaeafu. Dylech allu adnabod cryfderau a gwendidau'r rhaglen gynhyrchu. | Arsylwi ymarferol. Tystiolaeth ysgrifenedig.<br>Monitro a dadansoddi ymchwil annibynnol. |
| Ll3, Ll7, T2 | Cynaeafu, Storio a Marchnata Gwraidd-gnydau | Rydych yn rhan o dîm pwrpasol sydd â'r gwaith o gynaeafu a storio gwraidd-gnwd penodol yn llwyddiannus. Disgrifiwch sut mae'r broses yn digwydd a gofynion y farchnad sy'n pennu'r rhaglen gnydau. | Arsylwi ymarferol. Tystiolaeth ysgrifenedig.<br>Ymchwil annibynnol a monitro |
| Ll5, Ll7, T2 | Cynaeafu, Storio a Marchnata Cnydau Llysiau Cae | Rydych yn rhan o dîm sydd â'r gwaith o gynaeafu'n llwyddiannus a storio cnwd llysiau cae penodol. Disgrifiwch sut mae'r broses yn digwydd a gofynion y farchnad sy'n pennu'r rhaglen gnydau. | Arsylwi ymarferol. Tystiolaeth ysgrifenedig.<br>Ymchwil annibynnol a monitro. |
| Ll4, Ll6, Ll8, Rh2 | Asesu Perfformiad Corfforol ac Ariannol Menter | Ar gyfer y cnydau a ddewiswyd, cynhyrchwch feintiau gros sy'n adlewyrchu'n gywir fewnbynnau ac allbynnau, ac ar sail hynny cyfrifwch gostau uned gynhyrchu ar gyfer un cnwd penodol. | Tystiolaeth ysgrifenedig.<br>Ymchwilio a dadansoddi annibynnol. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Sefydlu Cnydau |
| Cynorthwyo wrth Gynhyrchu Cnydau Amaethyddol |
| **Lefel 3** |
| Elfen AgC11.1 Paratoi offer plannu |
| Elfen AgC11.2 Plannu a sefydlu cnydau helaeth |
| Elfen AgC12.2 Paratoi cnydau a gynaeafir |
| Cynhyrchu Cnydau Amaethyddol |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i gaeau lle tyfir yr amrediad perthnasol o gnydau, o bosib yn y ganolfan ac ar ffermydd lleol. Bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o bolisi'r fferm am yr amgylchedd, megis y defnydd o leiniau cadwraeth/clustogi, a lle mae'r fferm wedi ymuno â'r Cynllun Lefel Mynediad. Rhaid i'r dysgwyr hefyd allu cyflawni gweithrediadau maes penodol mewn ffordd ddiogel, gan ddefnyddio tractor a pheiriannau. Mae rhai peiriannau a chyfarpar cynaeafu yn hynod arbenigol a gallant achosi damweiniau. Rhaid i'r tiwtoriaid felly sicrhau ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth iechyd a diogelwch gyflawn drwy'r amser ym mhob sefyllfa mae dysgwyr yn ymwneud â hi.

Dylid annog sgyrsiau gwadd ac ymweliadau â ffermydd lleol a mentrau cysylltiedig neu gydweithfeydd er mwyn i'r dysgwyr weld a phrofi cwmpas llawn y broses gynhyrchu. Dylai'r dysgwyr gael mynediad i gofnodion fferm, rhai ymarferol ac ariannol, ar adegau perthnasol yn y rhaglen.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned yn canolbwyntio ar gyfranogiad dysgwyr ar bob cam o gynhyrchu cnydau. Bydd hyn yn cynnwys fferm y ganolfan, ond hefyd ffermydd lleol. Gellid llunio cytundeb â budd o'r ddeutu lle defnyddir fferm fel astudiaeth achos, a gwahodd y ffermwr i wrando ar farn dysgwyr ynghylch perfformiad menter fferm a gwneud sylwadau.  Gall fod hefyd gyfleoedd i ddysgwyr gyflawni hyfforddiant ar ddefnyddio peiriannau arbenigol drwy safonau cysylltiedig â hyfedredd cenedlaethol.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Bell B – *Farm Machinery* (Old Pond Publishing, 2005) ISBN 1 903366 68 2

Culpin C a Bloxham P – *Culpin's Farm Machinery* (Blackwell Science, 2006) ISBN 0632051825

Davies D, Finney B ac Eagle D – *Resource Management: soil* (Farming Press, 2001) ISBN 0 85236 559 4

Eash N, Green C – *Soil Science Simplified* (Blackwell Publishing, 2008) ISBN 13 978 08138 1823-8

Finch H, Samuel A a Lane G – *Lockhart & Wiseman's Crop Husbandry: Including Grassland* (Woodhead publishing, 2002) ISBN 1 85573 5490

Fordham R, Biggs AG – *Principles of Vegetable Crop Production* (Wiley Blackwell, 2000) ISBN 10-0632036311

Nix J – *Farm Management Pocketbook, 40fed Argraffiad* (The Andersons Centre, 2010) ISBN 0954120159

Soffe R – *The Agricultural Notebook, 20fed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 0632058293

Wilson P, King M – *Arable plants – A Field Guide* (Wildguides, 2003) ISBN 1 903657 02 4

### Cyhoeddiadau eraill

DEFRA – Fertiliser Recommendations for Agricultural and Horticultural Crops RB209, 8fed Argraffiad (The Stationery Office Books, 2008)

Recommended List of Field Vegetables (taflen ffermwyr NIAB, yr argraffiad diweddaraf)

Recommended List of Potatoes (taflen ffermwyr NIAB, yr argraffiad diweddaraf)

Recommended List of Sugar Beet (taflen ffermwyr NIAB, yr argraffiad diweddaraf)

The Leaf Handbook for Integrated Farm Management (Linking Environment & Farming, 2000)

UK Pesticide Guide (CABI, 2009) ISBN 978 1 845934 16 3

### Cyfnodolion

*British Sugar Review*

*Crops*

*Farm Building Progress*

*Farm Business*

*Farm Contractor*

*Farmers Guardian*

*Farmers Weekly*

#### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.bayercropscience.co.uk | Bayer Crop Science |
| www.bsonline.co.uk | British Sugar |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.efma.org | Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Gwrtaith Ewrop |
| www.environment-agency.gov.uk | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| www.hgca.com | Awdurdod Grawn Cartref |
| www.newfarmcrops.co.uk | New Farm Crops |
| www.niab.com | Sefydliad Cenedlaethol Botaneg Amaethyddol |
| www.potato.org.uk | Cyngor Tatws Prydain |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | monitro cnydau eu hunain |
| **Meddylwyr creadigol** | monitro a chynllunio agweddau ar gynhyrchu cnydau |
| **Dysgwyr myfyriol** | monitro a chynllunio agweddau ar gynhyrchu cnydau |
| **Gweithwyr tîm** | ymwneud â gweithgareddau ymarferol, profiad gwaith ac yn cynllunio aseiniad i'w gyflwyno i ffermwr fel tîm |
| **Hunan-reolwyr** | yn cymryd rhan mewn dyletswyddau fferm ac yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain, eu prydlondeb a gwaith tîm |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, profiad gwaith a chynllunio fel tîm er mwyn cyflwyno eu canlyniadau i'r ffermwr |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Dysgwyr myfyriol** | ymweld â ffermydd lleol a mentrau perthnasol. |
| **Gweithwyr tîm** | cymryd rhan weithredol mewn gwaith fferm. |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cymryd rhan weithredol mewn gwaith fferm. |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio â systemau TGCh a'u defnyddio'n annibynnol ar gyfer tasgau cymhleth i fodloni anghenion amrywiol | ymwneud â dehongli a chyfrifo canlyniadau mynegai pridd, argymhellion chwistrellu neu feddalwedd GPS |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio- a gwerthuso ei haddasrwydd at at y diben | |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion | |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i gyd-fynd â'r cynnwys a'r diben | |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa | |
| Gwerthuso'r detholiad a'r defnydd o offer TGCh a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth | |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | |
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | dehongli gwybodaeth ariannol a chynhyrchu eu cyfrifiadau eu hunain at ddibenion rheoli |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | cyflwyno gwybodaeth am berfformiad corfforol ac ariannol menter fferm i reolwyr fferm neu diwtoriaid |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | |